## Yr Ardal Astudio

Er mwyn astudio'n effeithiol, mae'n well cael man astudio pwrpasol , rhywle gallwch chi fynd i wneud y gwaith heb ddim byd i dynnu eich sylw. Fel arfer bydd yn eich ystafell wely, ond fydd hyn ddim yn wir yn achos pob myfyriwr. Roedd un fyfyrwraig, oedd yn rhannu WgŶda'i J Òa'Uu tri phlentyn, wedi troi eu sied yn fan astudio. Roedd yn honni bod cael y lle hwnnw wedi gwneud y gwahaniaeth rhwng gradd 1:1 a gradd dosbarth cyntaf .

Ond nid yw cael y lle yn ddigon. Bod yn drefnus yw'r

Dyma rai awgrymiadau a chynghorion i'ch helpu i gadw eich ardal astudio mewn trefn :

## Eich Desg

Os ydy eich desg/man astudio'n flêr, rhowch amser i roi trefn arni . Nid yw hyn yn golygu cuddio popeth yn rhywle neu ei wthio ar y llawr. Gyda phob eitem , gofynnwch i chi eich hun ydw i wir angen hwn? Os na yw'r ateb, rhowch ef yn y bin; os ddim yn V L ÒÙ yw'r ateb, rhowch ef yn y bin. Cadwch yr eitem dim ond os ydych yn gwybod bod ei hangen arnoch.

Ar ôl i chi greu pentwr o'r pethau angenrheidiol, penderfynwch a oes angen i bob eitem fod ar y ddesg ai peidio. Gofynnwch i chi eich hun pa mor aml yr ydych yn ei defnyddio. Os ydych yn ei defnyddio bob dydd mae'n mynd ar y ddesg, os na, rhowch hi o'r neilltu a symudwch ymlaen i'r eitem nesaf.

Grwpiwch eitemau tebyg gyda'i gilydd, er enghraifft deunydd ysgrifennu, a rhowch nhw mewn lle addas. Labelwch nhw os oes angen.

Nawr eisteddwch wrth eich desg. Meddyliwch am yr holl focsys neu fagiau o bethau yr ydych newydd eu didoli a'u rhoi yn nhrefn amlder defnydd, yn hytrach nag yn nhrefn eu pwysigrwydd. Mae eich pasport yn ddogfen bwysig iawn, ond rydych yn debygol o ddefnyddio'r styffylwr yn amlach na'ch pasbort. Felly gosodwch eich bocs/bag deunydd ysgrifennu o fewn cyrraedd hwylus i'ch desg. Rhowch yr eitemau a ddefnyddir yn llai aml yn bellach i ffwrdd.

Argraffwch/ysgrifennwch gopi o'ch amserlen a'i gadw wrth ymyl eich desg.

Penderfynwch ar ffordd o storio eich gwaith/taflenni. Mae hambyrddau neu ffolderi yn syniad da, ond gall hambyrddau fynd yn flêr yn gyflym a gall ffolderi gael eu taflu.

